Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru/ Welsh Parliament
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddFinance@senedd.cymru

24 Hydref 2022

Annwyl Peredur,

Amserlen Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Hydref yn gofyn am adolygiad o amserlen arfaethedig Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 er mwyn caniatáu mwy o amser craffu ar gyfer y Senedd.

Unwaith yn rhagor, o fewn yr ychydig ddyddiau sydd wedi mynd heibio, mae'r amgylchiadau wedi newid ac mae lefel yr ansicrwydd yr ydym yn gweithredu o'i fewn wedi dwysau. Mae cyhoeddiad y Prif Weinidog y bydd yn ymddiswyddo yn creu ansicrwydd newydd ynghylch cyfeiriad cyllidol y DU yn y dyfodol, ynghyd â diffyg eglurder ar ddyfodol y Canghellor a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys. Nid ydym yn gwybod pryd y caiff hyn ei ddatrys na pha oblygiadau a fydd ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru

Nid ydym yn gwybod a fydd unrhyw newid i ddyddiad cyhoeddi Cynllun Cyllid Tymor Canolig Llywodraeth y DU - sydd wedi'i amserlennu ar hyn o bryd ar gyfer 31 Hydref - ac rydym yn annhebygol o gael eglurder ar hyn yn y dyddiau nesaf. Roeddem yn gobeithio y byddai cyhoeddi rhagolygon annibynnol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ein galluogi i asesu'r goblygiadau ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru a chynorthwyo ein paratoadau ar gyfer y Gyllideb Ddrafft, ond nid ydym yn glir a fydd cyhoeddiad gan OBR yn unol â'r amserlenni gwreiddiol. Rwyf yn siŵr y Bydd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod hyn i gyd yn hynod o anodd ei reoli.

Yn wyneb yr ansicrwydd hwn, rhaid inni barhau â'n paratoadau yn seiliedig ar y ffiniau sydd gennym ar hyn o bryd, ac rwyf wedi ymrwymo o hyd i gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 13 Rhagfyr. Byddaf yn arddel ymagwedd gadarn a chytbwys at yr heriau sy'n ein hwynebu, gan weithio gyda'm cydweithwyr Gweinidogol i sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl o arian cyhoeddus yn wyneb cyllidebau sy'n crebachu. Yn y cyfnod heriol hwn, yn anffodus, bydd angen gwneud penderfyniadau o ran ble mae rhaid atal neu

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ohirio cyllid, gan nad oes gennym yr arian i ariannu'r cyfan yr ydym am ei wneud. Ar y sail hon, hoffwn gynnal yr asesiad llawnaf posibl o effeithiau wrth baratoi'r Gyllideb Ddrafft.

Rwyf yn cydnabod pa mor bwysig yw'r gwaith craffu ar ein cynlluniau ac rwyf am barhau i gefnogi'r Pwyllgor Cyllid i ymgymryd â'r rôl bwysig iawn hon. Ar yr un pryd, rhaid imi bwyso a mesur canlyniadau rhuthro'r broses o wneud penderfyniadau er mwyn darparu mwy o amser ar gyfer craffu. Os caiff ein cyllideb ei thorri, bydd goblygiadau sylweddol i'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny ac sy'n cael eu cefnogi ganddynt; yn ogystal â'r effeithiau i gymdeithas, yr economi, a'r amgylchedd ehangach. Hyd yn oed os na chaiff ein cyllid ei dorri, oherwydd yr hinsawdd economaidd, rwyf am gydnabod y caiff ein Cyllideb ei lleihau'n sylweddol mewn termau real, gan ei gwneud yn ofynnol o hyd inni reoli proses gyllidebol anhygoel o anodd.

Mae'n hanfodol, felly, imi sicrhau'r asesiad mwyaf trylwyr o ble y dylai cyllid gael ei flaenoriaethu. Rhaid i'r broses hon gyfrif am unrhyw newidiadau i'n setliad, sy'n anhysbys o hyd oherwydd yr ansicrwydd ynghylch cynlluniau Llywodraeth y DU. Er mwyn darparu ymateb sy'n gymesur â'r amgylchiadau hyn, sicrhau y gellir ei gyfieithu a'i gyhoeddi mewn modd trefnus, ni ellir gwneud hyn o fewn amserlen fyrrach fel yr un yr ydych wedi gofyn amdani, heb achosi risgiau anghymesur sylweddol.

Ymrwymais i gyhoeddi ein Cyllideb Ddrafft cyn y Nadolig er mwyn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'n partneriaid cyflenwi. Roedd hyn yn adlewyrchu patrwm lle mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo, yn eithriadol, i gyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft cyn pen pedair wythnos i ddigwyddiad cyllidol Llywodraeth y DU ar ddiwedd mis Tachwedd. Er hynny, nid ystyriwyd erioed bod cyhoeddi o fewn pedair wythnos yn ddelfrydol ac nid oedd bwriad erioed iddo ddod yn gynsail ar gyfer blynyddoedd pan nad oedd yn gyfan gwbl angenrheidiol. Roedd bob amser yn cael ei ystyried yn 'sefyllfa waethaf' ar gyfer amserlen y Gyllideb ac nid yw'n adlewyrchu'r amgylchiadau anodd yr ydym yn eu hwynebu yn awr.

O gofio fy mwriad i gyhoeddi'r Cyllidebau Amlinellol a Drafft Manwl gyda'i gilydd ar 13 Rhagfyr (gan gydnabod yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â Llywodraeth y DU) hoffwn ofyn i'r Pwyllgor Cyllid gyhoeddi ei adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft ddydd Llun 6 Chwefror neu cyn hynny, i alluogi'r drafodaeth ar y Gyllideb Ddrafft i ddigwydd ddydd Mawrth 7 Chwefror. Byddai hyn yn darparu un diwrnod yn llai yn unig na'r uchafswm a nodir yn y protocol y cytunwyd arno rhwng Comisiwn y Senedd a Llywodraeth Cymru a bydd yn sicrhau bod rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gallu ymgysylltu â'r Senedd a mynegi eu barn. Rwyf yn cynnig mai dyma'r defnydd mwyaf cymesur o'r amser sydd ar gael inni a'i fod yn taro cydbwysedd rhwng yr amser sydd ar gael i'r Gweinidogion bennu manylion terfynol eu cynlluniau gwario ac i Bwyllgorau'r Senedd graffu yn llawn ar y Gyllideb ddrafft.

Caiff y Gyllideb Flynyddol ei chyhoeddi ar 28 Chwefror 2023, er mwyn iddi gael ei thrafod ddydd Mawrth 7 Mawrth, sef y dyddiad olaf y gellir ei thrafod a'i chymeradwyo cyn y dyddiad terfynol statudol o 11 Mawrth.

Wrth gwrs, mae'r dyddiadau hyn yn ddarostyngedig i'r ansicrwydd sy'n parhau ynghylch ethol Prif Weinidog newydd ac effeithiau posibl yr etholiad hwnnw ar ein

hamserlen ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2023-24. Er hynny, rwyf wedi ymrwymo i gadw at y dyddiadau hyn, oni bai bod ffactorau y tu allan i'm rheolaeth yn fy atal rhag gwneud hynny.

Er fy mod yn sylweddoli bod yr amgylchiadau hyn yn llai na delfrydol, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei gefnogaeth barhaus. Hoffwn gyflwyno cyfle hefyd i Glerc y Pwyllgor Cyllid gyfarfod yn rheolaidd â'm swyddogion arweiniol ar y Gyllideb i sicrhau ein bod yn parhau i gynnal y ddeialog agored ac adeiladol yr ydym wedi'i datblygu yn ddiweddar.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government